



Dinas a Sir Abertawe

## Cofnodion Cyfarfod y Panel Perfformiad Craffu - Gwella Gwasanaethau a Chyllid

O bell drwy Microsoft Teams

Dydd Mawrth, 16 Tachwedd 2021 am 9.30 am

**Yn Bresennol:** Y Cyngorydd C A Holley (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

### Y Cyngorydd(wyr)

P M Black  
D W W Thomas  
P K Jones  
B J Rowlands

### Y Cyngorydd(wyr)

P Downing  
L James  
J W Jones

### Y Cyngorydd(wyr)

P R Hood-Williams  
M H Jones  
I E Mann

### Mynychwyr eraill

Geoff Bacon  
Ian Davies  
Tom Evans  
Phil Holmes  
Alex O'Brien  
Michelle Roberts  
Ben Smith

Pennaeth y Gwasanaethau Eiddo  
Rheolwr Datblygu  
Prif Swyddog Cynllunio (Polisi)  
Pennaeth Cynllunio ac Adfywio'r Ddinas  
Rheolwr Eiddo  
Swyddog Craffu  
Prif Swyddog Cyllid / Swyddog Adran 151

### Ymddiheuriadau am absenoldeb

Y Cyngorydd(wy): A H Stevens, R Stewart

---

### 36 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

### 37 Gwahardd pleidleisiau Chwip a Datgan Chwipiau'r Pleidiau

Yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o Bleidleisiau Chwip na Chwipiau'r Pleidiau.

### 38 Cofnodion y Cyfarfod(ydd) Blaenorol

Cytunwyd bod cofnodion cyfarfod y Panel Gwella Gwasanaethau a Pherfformiad Cyllid, a gynhaliwyd ar 19 Hydref 2021, yn gofnod cywir.

### 39 Cwestiynau gan y Cyhoedd

Ni chafwyd unrhyw gwestiynau cyhoeddus mewn perthynas â rhan agored yr Agenda.

#### 40 **Datganiad Cyllideb Canol Tymor**

Derbyniodd y Panel ddiweddariad llafar gan Ben Smith, Prif Swyddog Cyllid/Swyddog A151, ynghylch y Datganiad Cyllideb Tymor Canolig.

*Roedd y trafodaethau'n canolbwyntio ar y canlynol:*

- Nid oedd unrhyw beth pellach i'w ychwanegu ers y diweddariad i'r cyngor ar 4 Tachwedd.
- Mae Ch2 yn cael ei ohirio, gan fod ail-hawliadau'n cael eu cwblhau gan Lywodraeth Cymru (LIC).
- Holodd yr Aelodau am effeithiau'r cyfraniad Yswiriant Gwladol o 1.25%. Amlinellodd swyddogion fod arian cynnar ymlaen llaw ym Mlwyddyn 1, ac y bydd digon o arian yn y system i ad-dalu hyn.
- Cododd yr Aelodau bryderon ynghylch a fydd setliad Llywodraeth Cymru yn ffafriol a beth yw'r opsiynau os nad ydynt.
- Clywodd y Panel, os yw'n setliad teg a rhesymol, ei bod yn debygol y bydd cynllun tymor canolig sy'n cydbwyso dros y cyfnod canolig (2025/26).
- Esboniodd swyddogion fod chwyddiant yn uwch, ac yn debygol o fod felly ar gyfer y blynyddoedd i ddod.
- Cododd yr Aelodau bryderon ynghylch effaith anuniongyrchol y cynnydd mewn YG ar wasanaethau'r cyngor.
- Gofynnodd y Panel am effaith cyfraddau llog cynyddol ar gost benthyca yn y dyfodol.
- Esboniodd swyddogion na fydd unrhyw effaith ar fenthyciadau cyfradd sefydlog.
- Bydd angen gwariant sylweddol ar gynlluniau yn y dyfodol, er enghraifft ymrwymadau sero-net o ran carbon, a bydd angen iddynt fod ar gyfraddau drutach yn y tymor hwy.

#### 41 **Adroddiad Perfformiad Blynyddol Cynllunio**

- Derbyniodd y Panel gyflwyniad gan y Cyng. David Hopkins, Dirprwy Arweinydd, a wnaeth gydnabod gwaith caled swyddogion a diolch i bawb am eu mewnbwn.
- Clywodd y Panel fod yr Adroddiad Perfformiad Blynyddol (APB) yn cael ei lunio bob blwyddyn i ganiatáu i Lywodraeth Cymru fonitro perfformiad yn erbyn set benodol o ddangosyddion.
- Mae APB Hydref 2021 yn cwmpasu cyfnod o ddwy flynedd, gan roi sylw i'r pandemig.
- Esboniodd swyddogion fod effeithiau'r pandemig wedi arwain at adnoddau cyfyngedig ac roedd angen newid arferion gwaith, er enghraifft ymweliadau safle ac asesiadau risg.
- Mae nifer y ceisiadau a dderbyniwyd ers Ch3 2021 wedi cynyddu'n sylweddol (tua 40% ar y blynyddoedd blaenorol).
- Nodwyd bod mwy o bwysau ar lwyth gwaith swyddogion.
- Bu cynnydd yn nifer y cwynion/materion gorfodi.
- Mae materion wedi codi o ran gorfodi - er enghraifft, roedd rhai pobl yn amharod i adael swyddogion i mewn i'w heiddo oherwydd cyfyngiadau COVID.

- Yn y gorffennol, mae data cymharu wedi caniatáu i Gyngor Abertawe gymharu ag Awdurdodau Lleol eraill. Nid yw data'r ddwy flynedd diwethaf ar gael felly ni all y cyngor wneud y cymariaethau hynny, er y nodir bod yr adran gynllunio wedi parhau i gyrraedd y targedau a bennwyd gan Lywodraeth Cymru.
- Cododd yr Aelodau bryderon ynghylch diffyg adrodd gan Lywodraeth Cymru eleni. Esboniodd swyddogion fod llwyth gwaith y llynedd yn rhy drwm ar draws Awdurdodau Lleol ac mae nifer o faterion wedi codi eleni o ran cyflwyno deddfwriaeth dros dro i fusnesau ddelio ag addasiadau'r pandemig.
- Mae swyddogion yn disgwyl i ddata tebyg gael ei ddarparu yn y dyfodol. Roedd adroddiadau APB eleni yn ddewisol, ond mae CDA wedi cwblhau hyn beth bynnag.
- Cododd yr Aelodau faterion mewn perthynas â'r Amgylchedd Naturiol a monitro gorfodi cynllunio mewn perthynas â materion ecolegol.
- Esboniodd swyddogion nad oes swyddog monitro dynodedig ar hyn o bryd. Cyflwynir cwynion ac ymdrinnir â hwy fel tîm cyfan. Cydnabu swyddogion y gallai llawer o waith gorfodi fod yn fwy rhagweithiol, gan gynnwys materion yn ymwneud â defnydd twristiaeth/defnydd amaethyddol.
- Tynnodd swyddogion sylw at y ffaith ei bod yn anodd monitro materion penodol yn rhagweithiol wrth ddelio â nifer mawr o gwynion, a dywedon nhw y byddai swyddog gorfodi penodol o fudd.
- Lefelau staffio – holodd yr aelodau a yw swyddi wedi'u llenwi.
- Mae'r Panel yn deall bod yr adran gynllunio wedi'i staffio'n llawn ar 1 Tachwedd, fodd bynnag, mae rhai swyddogion yn cael eu cyflogi ar gontractau dros dro.
- Nododd yr Aelodau'r mater recriwtio/cadw staff ar draws y cyngor, gan ddweud efallai na fydd defnyddio contractau dros dro yn cadw staff.
- Holodd yr Aelodau a yw'r cyfnod targed o wyth deg pedwar diwrnod yn cael ei bennu gan Lywodraeth Cymru. Esboniodd swyddogion mai dyma'r cyfnod i benderfynu pa gamau i'w cymryd, er enghraifft, datrys mater drwy wahodd cais cynllunio neu orfodi fel arall.
- Holodd yr Aelodau am yr ymateb e-bost cyffredinol a anfonir gan y cyngor ar hyn o bryd, mewn perthynas ag ymholiadau cynllunio. Cododd yr Aelodau bryderon y gall hyn roi'r argraff i bobl nad yw'n fater brys, gan awgrymu y gallai'r cyngor ystyried ail-eirio'r ymateb awtomataidd hwn.
- Amlinellodd swyddogion fod cael cyllid/grantiau i sicrhau staff ychwanegol yn fuddiol, fodd bynnag, nid yw'r farchnad lafur bob amser yn ddigonol i ateb y galw a gall fod yn anodd recriwtio sgiliau penodol ar draws y rhanbarth.
- Esboniodd swyddogion fod ystyriaeth yn cael ei rhoi i'r posibilrwydd o ddatblygu staff y cyngor drwy brentisiaethau/hyfforddeion.
- Gofynnodd yr Aelodau sut y gellid bwrw ymlaen â hyn a'i symud ymlaen. Esboniodd swyddogion fod y Cyfarwyddwr Lleoedd yn ystyried hyn fel mater ehangach.
- Adroddiad camau gorfodi – gofynnodd y Panel a fyddai'r adroddiad hwn ar gael i Aelodau'r pwyllgor nad ydynt yn aelodau o'r pwyllgor cynllunio.
- Cododd y Panel ymholiadau ynghylch sut y gellir cyflwyno pridiant tir ar rai parseli tir ac nid ar eraill. Esboniodd swyddogion, pan gyflwynir hysbysiad gorfodi ffurfiol, fod y tâl yn ymddangos fel pridiant tir.
- Ffioedd a godir am gyngor cyn cynllunio - holodd yr aelodau ai'r swyddogion/staff sy'n rhoi cyngor o'r fath yw'r un swyddogion cynllunio sy'n eistedd ar y pwyllgor

cynllunio. Cododd yr Aelodau ymholiadau hefyd ynghylch parhad cyngor o'r fath rhwng ymgeiswyr a'r pwyllgor cynllunio.

- Mewn perthynas â ffioedd cyn ymgeisio, eglurodd swyddogion fod swyddog achos ar gyfer yr ardal yn ymdrin ag ymholiad, a'i fod wedyn yn cael ei gymeradwyo gan Arweinydd Tîm ardal. Os caiff achos penodol ei gyfeirio at y panel, bydd Arweinydd Tîm yr ardal yn bresennol.
- Efallai y bydd gan Gyd-bwyllgorau yn y dyfodol elfen gynllunio – roedd gan yr Aelodau ddiddordeb mewn darganfod beth fydd yr elfen hon yn ei gynnwys a sut y bydd yr Aelodau'n cael eu cynnwys yn hyn.
- Esboniodd swyddogion fod adroddiad cwynion newydd wedi'i gychwyn, i'w anfon at yr Aelodau'n wythnosol i roi gwybod am gwynion a dderbynnir ym mhob ward.
- Amserlenni – Roedd gan aelodau ddiddordeb mewn gwybod mwy am ffactorau a arweiniodd at amserlenni hwy ar gyfer ceisiadau.
- Esboniodd swyddogion fod Llywodraeth Cymru yn monitro perfformiad awdurdodau lleol ac yn edrych ar ganran y ceisiadau a brosesir o fewn yr amserlenni y cytunwyd arnynt (wyth wythnos fel arfer o'r adeg y cyflwynir cais dilys). Tynnodd swyddogion sylw at y ffaith y gall yr amserlen honno newid wrth gael ei brosesu, er enghraifft os yw'r dystysgrif anghywir wedi'i chyflwyno. Pan fydd dogfennau cywir yn cael eu hailgyflwyno mae'r cyfnod o wyth wythnos yn dechrau eto.
- Esboniodd swyddogion fod y ddarpariaeth ddeddfwriaethol bresennol yn golygu, os cyflwynir unrhyw gynlluniau diwygiedig/ychwanegol, y bydd estyniad awtomatig o bedair wythnos (i'w benderfynu).
- Dywedodd swyddogion nad yw'n bosib ambell waith i benderfynu ar achos o fewn y cyfnod o wyth wythnos, er enghraifft os caiff achos ei gyfeirio at y pwyllgor bydd angen i ymgeiswyr gytuno ar estyniad amser i gyd-fynd â dyddiadau cyfarfodydd pwyllgorau.
- Clywodd y Panel, os penderfynir ar achos y tu allan i'r amserlen y cytunwyd arni, fod gan yr ymgeisydd hawl i apelio i Lywodraeth Cymru yn erbyn methu penderfynu, gan ofyn i Lywodraeth Cymru ystyried yr achos drwy'r arolygiaeth gynllunio.
- Esboniodd swyddogion, os bydd ymgeisydd yn penderfynu diwygio cynllun a chyflwyno gwelliannau, a fyddai'n debygol o fynd â'r mater y tu allan i'r amserlenni y cytunwyd arnynt, y byddai'r cyngor yn gofyn i ymgeiswyr gytuno ar estyniad amser. Mesurir perfformiad y cyngor yn erbyn yr amserlen y cytunwyd arni.
- Mae Cyngor Abertawe'n darparu gwasanaeth cyngori cyn ymgeisio fel y gellir ymdrin ag unrhyw faterion cyn eu cyflwyno.

#### 42 **Llythyrau**

#### 43 **Cynllun Gwaith**

Nododd y panel y Cynllun Gwaith

#### 44 **Gwahardd y Cyhoedd.**

Pleidleisiodd y Panel a chytunodd i wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod wth ystyried eitem 11, am ei bod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig. Y paragraffau perthnasol o Brawf Budd y Cyhoedd yw 14 ac 16.

45 **Craffu Cyn Penderfynu: Adroddiad Rheoli i roi'r diweddaraf ar Faes Awyr  
Abertawe**

Daeth y cyfarfod i ben am 11.00 am